**Polisi Tynnu Deunydd Llyfrgelloedd a Chasgliadau**

Diwygiwyd ddiwethaf: Mawrth 2026
Dyddiad Adolygu: Mawrth 2027
Corff Cymeradwyo: Tîm Arweinyddiaeth Llyfrgelloedd a Chasgliadau

Perchennog: Llyfrgelloedd a Chasgliadau
Awdur: Erika Gavillet

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## 1. Cefndir / Crynodeb

Mae gan lyfrgelloedd prifysgolion rôl ganolog wrth ddarparu mynediad at adnoddau ysgolheigaidd, diwylliannol ac addysgol. Fel stiwardiaid casgliadau diriaethol a digidol, mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau a ddarperir gan y tîm - drwy ystorfeydd sefydliadol, archifau digidol, platfformau darganfod a gwasanaethau ar-lein - yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, moesegol a rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys diogelu hawliau eiddo deallusol, diogelu data personol, parchu cytundebau trwyddedu a chynnal cywirdeb y cofnod ysgolheigaidd.

Mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau hefyd yn cefnogi egwyddorion mynediad agored a rhyddid academaidd, gan gydnabod ei gyfrifoldebau i ymateb yn briodol pan geir pryderon am gynnwys a all fod yn anghyfreithlon, yn sarhaus, yn anghywir neu'n amhriodol fel arall. Mae'r Polisi Tynnu Deunydd hwn yn sefydlu proses glir a thryloyw ar gyfer rhoi gwybod am bryderon o'r fath, yn amlinellu sut bydd Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn ymchwilio i geisiadau ac yn eu hasesu, ac yn disgrifio'r camau gweithredu y gallwn eu cymryd i liniaru risg a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol y DU, gan gynnwys deddfwriaeth hawlfraint a diogelu data a dyletswyddau diogelu.

## 2. Diben

Diben y Polisi Tynnu Deunydd hwn yw darparu fframwaith tryloyw a chyson ar gyfer ymateb i bryderon am ddeunyddiau sydd ar gael drwy gasgliadau a phlatfformau ar-lein Llyfrgelloedd a Chasgliadau. Os tynnir ei sylw at gynnwys a all fod yn anghyfreithlon, yn torri hawlfraint, yn anghywir neu'n amhriodol fel arall, mae'n sicrhau ei fod yn cael ei asesu a'i reoli mewn modd amserol a chyfrifol. Mae'r polisi yn cefnogi dyletswyddau Llyfrgelloedd a Chasgliadau i ddiogelu eiddo deallusol, data personol a chywirdeb y cofnod ysgolheigaidd, gan gynnal ei ymrwymiad i fynediad agored, rhyddid academaidd a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth y DU.

## 3. Cwmpas / Eithriadau

**Cwmpas:**

Mae'r Polisi Tynnu Deunydd hwn yn berthnasol i'r holl gynnwys sydd ar gael drwy Lyfrgelloedd a Chasgliadau a thrwy ei gasgliadau diriaethol a digidol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:

- Ystorfeydd sefydliadol a chyhoeddiadau mynediad agored
- Archifau digidol, casgliadau arbennig a deunyddiau treftadaeth
- Platfformau darganfod a chatalogau a reolir gan y Llyfrgell
- Adnoddau trwyddedig neu drwy danysgrifiad lle cânt eu cadw'n lleol
- Cofnodion metadata, gwybodaeth ddisgrifiadol a ffeiliau atodol

**Eithriadau:**

Nid yw'r Polisi Tynnu Deunydd hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- Cynnwys sy'n cael ei gadw neu ei reoli gan gyhoeddwyr neu ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ac mae Llyfrgelloedd a Chasgliadau yn rhoi mynediad ato yn unig (e.e. platfformau e-adnoddau masnachol). Dylid cyfeirio pryderon at sylw'r darparwr priodol.
- Cynnwys sy'n eiddo i adrannau academaidd neu grwpiau ymchwil nad yw wedi'i guradu, ei gynnal neu ei reoli gan Lyfrgelloedd a Chasgliadau.
- Gwasanaethau TG cyffredinol neu gynnwys sydd ar gael yn helaeth ar wefan y Brifysgol sy'n cael ei reoli gan bolisïau TG neu lywodraethu'r we y sefydliad.

## 4. Datganiad Polisi

Mae gan Lyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe yr hawl i dynnu eitemau yn ôl eu disgresiwn, am unrhyw reswm proffesiynol, gweinyddol neu gyfreithiol.

Cyfrifoldeb yr awdur yw achosion o dorri hawlfraint.

I gyflwyno cais i dynnu eitemau o'r ystorfa neu o unrhyw un o dudalennau gwe'r Brifysgol, e-bostiwch library@abertawe.ac.uk

Rhowch yr wybodaeth ganlynol:

- eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- manylion llyfryddiaethol llawn y deunydd
- natur y gŵyn
- datganiad mai chi yw perchennog yr hawliau neu fod gennych awdurdod i weithredu ar ran perchennog yr hawliau.

Os ceir hysbysiad y gallai hawlfraint fod wedi'i thorri neu gŵyn sy'n awgrymu bod rheolau cyhoeddwr wedi'u torri, neu bryder perthnasol arall, bydd yr eitemau dan sylw yn cael eu tynnu o'n platfformau gan aros am ymchwiliad.
Byddwn yn cadarnhau bod y gŵyn wedi ein cyrraedd drwy e-bost a chynhelir asesiad cychwynnol o'i dilysrwydd. Bydd y deunydd yn cael ei dynnu nes bydd modd cytuno ar ganlyniad. Byddwn yn hysbysu'r sawl a wnaeth adneuo'r deunydd ei fod yn destun cwyn.

Anogir yr achwynydd a'r cyfrannwr i ddatrys y mater yn gyflym, yn gyfeillgar ac er boddhad y ddwy ochr, gan gytuno ar un o'r canlyniadau isod:
(i) mae'r deunydd yn cael ei ddychwelyd i wefan yr ystorfa heb ei newid.
(ii) mae'r deunydd yn cael ei ddychwelyd i wefan yr ystorfa gyda newidiadau.
(iii) mae'r deunydd yn cael ei dynnu'n barhaol o wefan yr ystorfa.

Mae gan Lyfrgelloedd a Chasgliadau Prifysgol Abertawe yr hawl i newid neu addasu'r polisi hwn unrhyw bryd.

## 5. Hanes y Polisi

| Dyddiad Adolygu | Awdur | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 03-2026 | Llyfrgelloedd a Chasgliadau | Adolygu'r Datganiad a'i Ail-fformatio mewn templed newydd |